



Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig i'r Ymgynghoriad 12 wythnos

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – ar 20 Medi 2017 darparodd y Comisiynydd adborth ysgrifenedig, fel rhan o'r cyfnod 14 wythnos o ymgynghori â'i swyddfa, ac mae'r adborth hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad 6. Ailadroddwyd y cyngor hwn yn ei llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2017. Rydym wedi defnyddio'r cyngor hwn i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Llesiant terfynol, ac mae llawer o'r sylwadau wedi ac yn cael eu hystyried gan y Grwpiau Meysydd Gweithredu a sefydlwyd eisoes ac a gaiff eu sefydlu. Ceir crynodeb o'n hymateb ni i'r cyngor a gynigiwyd gan y Comisiynydd yn Atodiad 7.

Llywodraeth Cymru – cafodd yr ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru ei gategoreiddio mewn tair ffordd:

- Categori A – materion arwyddocaol y gobeithiwn y byddid yn ymdrin â hwy cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol, mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion statudol neu bryderon sylweddol ynghylch elfennau allweddol o'r Cynllun
- Categori B – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun terfynol, pe byddid yn ymdrin â hwy cyn ei gyhoeddi. Byddai'r materion hyn yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r cynllun pa caent flaenoriaeth ochr yn ochr â gwaith datblygu cynnar
- Categori C – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun, ond y gellid ymdrin â hwy wrth iddo barhau i ddatblygu.

Nodwyd dau faes i'w datblygu Categori A - cydlyniant ac eglurder (yn arbennig o ran strwythur a llif a'r defnydd o iaith dechnegol, a'r angen am fwy o eglurder ynghylch yr amcanion a'r camau) a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r nodau llesiant cenedlaethol (yr angen i ymdrin yn fwy eglur ag integreiddio'r amcanion a sut y gall un amcan effeithio ar un arall)). Mae'n werth nodi yr ymdriniwyd â'r materion hyn eisoes erbyn i'r ymateb ddod i law.

At hynny, nodwyd nifer o feysydd i'w datblygu Categori B a Chategori C. Ymdriniwyd â'r rhain naill ai yn y Cynllun Llesiant terfynol ei hun neu yn y Cynllun Cyflawni Llesiant, a byddant yn parhau i lywio gwaith y Grwpiau Meysydd Gweithredu wrth symud ymlaen. O ran y sylwadau ynghylch 'Meddwl hirdymor a chwmpasu'r dyfodol', bydd y gwaith a gomisiynwyd oddi wrth Ash Futures Ltd yn helpu i lenwi rhai o'r bylchau a nodwyd wrth symud ymlaen.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – roedd yr ymateb yn cefnogi'r dull gweithio 4 Agwedd Gadarnhaol ac yn gwneud rhai awgrymiadau o ran diwyg y ddogfen.

Tim Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent - cyfeiriodd yr ymateb at faint o waith sydd wedi cael ei wneud wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant a dywedodd ei fod yn darlunio'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant poblogaeth y fwrdeistref sirol. Gwnaethpwyd sylwadau penodol ynghylch yr Amcan Llesiant "Cychwyn Cadarnhaol" a rhai o'r Meysydd Gweithredu, ac mae'n rhain wedi cael eu hymgorffori yn y fersiynau terfynol.

Fforwm Dros 50 Caerffili – roedd yr ymateb yn pwysleisio'r angen i ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth sy'n heneiddio ac i newid demograffig. Cyfeiriwyd yn benodol at faterion fel creu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn, rôl gofalwyr a phwysigrwydd 'henaint da'. Ymdriniwyd â'r sylwadau hyn yn y Cynllun lle bo'n briodol, ond mae'n bwysig nodi y dylid ystyried y Cynllun hwn ochr yn ochr â'r Cynllun Ardal, sy'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau hynny yn y boblogaeth sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – fel awdurdod lleol cyfagos, roedd yn falch o weld yr amrywiaeth o gyfleoedd oedd ar gael i gydweithio, a'r synergeddau cadarnhaol gyda'i Gynllun Llesiant

Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent – roedd yr ymateb yn cydnabod y cysylltiad cryf rhwng ei waith yntau a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Teimlai'r Bwrdd y gellid cryfhau hyn yn y Cynllun.

NSPCC Cymru – mae'r ymateb yn pwysu ar y Bwrdd i roi blaenoriaeth i atal ac amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Cyngor Celfyddydau Cymru – mae'r ymateb yn pwysleisio'r cyfleoedd iddo gydweithio â'r Bwrdd i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r celfyddydau a chreadigrwydd i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn darparu nifer o astudiaethau achos sy'n dangos yr hyn sy'n bosibl wrth gydweithio gydag artistiaid neu sefydliadau celfyddydol.

Oxfam – roedd yr ymateb yn mynegi pryder nad oes yn y Cynllun drafft ddigon o fanylion ynghylch sut y bydd y Bwrdd yn ymdrin ag anghydraddoldeb incwm sy'n crynhoi cyflogau, cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa a gwerth cymdeithasol mewn swyddi a gyflawnir gan ddynion yn bennaf, ac felly'n cyfyngu ar allu merched i symud allan o dlodi.

RSPB Cymru – dywed yr ymateb, er mwyn inni sicrhau buddion ecosystemau iach i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac ar yr un pryd rhoi terfyn ar ddirywiad bioamrywiaeth a'i wrthdroi yn unol ag ymrwymadau rhyngwladol, bod angen taer i sicrhau ein bod yn byw o fewn terfynau amgylcheddol.

Hub Cymru Affrica - mae'r ymateb yn argymhell y dylai'r Cynllun adlewyrchu'r dimensiwn dynol ym maes gweithredu caffael. Yn ogystal â chanolbwyntio ar gaffael cynaliadwy, carbon isel sy'n gyfrifol yn foesebol, gallai'r Cynllun roi rhagor o ystyriaeth i faterion fel caffael Masnach Deg, hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang ymysg pobl o bob oed a sut i groesawu a chynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr ardal.